Wrth gynnig y gyllideb hon, a gafodd ei derbyn gan y Cynulliad, fe adolygom ni'r holl flaenoriaethau addysg gan ddarparu'n briodol ar gyfer pob un. Rwyf i felly'n fodlon fod yr amcangyfrifon costau ar gyfer sefydlu a rhedeg Cymwysterau Cymru'n briodol ac yn realistig.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i Aelodau'r Pwyllgor.

Rwyf i'n anfon copi o'r llythyr hwn i Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir



Huw Lewis AC / AM

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Tabl 25 - Costau referniw: TGCh

Crynodeb o'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

	2015-2016 Sefydlu	2015-2016 Gweithredu	Parhaus
COSTAU SEFYDLU			
Ymgynghori	457,000		
WAN	22,000		
Meddalwedd arall	101,000		
COSTAU GWEITHREDU			
Ymgynghori			95,000
WAN			87,000
Meddalwedd arall			70,000
Cymorth Microsoft			47,000
Caledwedd			27,000
	<u>580,000</u>	<u>0</u>	<u>326,000</u>

Dadansoddiad manwl o'r costau hyn (isgyfansymiau'n cynnwys TAW ac wedi'u talgrynnu)

Dadansoddiad o Gostau Referniw: TGCh

	Sefydlu (3 blynedd)	Blyneddol
Ymgynghori (Costau Sefydlu)		
Integreiddiwr System	£84,000	£28,400
Datblygu Gwefan	£65,000	£26,500
Cronfa Ddata Rheoliadau	£96,000	£24,000
Adnoddau TGCh Llywodraeth Cymru	£120,000	
Sicrhau Ansawdd	£15,800	
<i>Isgyfanswm yn cynnwys TAW</i>	<u>£457,000</u>	
Ymgynghori (Costau parhaus)		
<i>Isgyfanswm yn cynnwys TAW</i>		<u>£95,000</u>
WAN / LAN (Costau Sefydlu)		
Costau Teleffoni	£9,000	£9,000
Ffonau Symudol	30 o ddefnyddwyr £9,450	£9,450
<i>Isgyfanswm yn cynnwys TAW</i>	<u>£22,000</u>	
WAN (Costau parhaus)		
WAN / Teleffoni / Wal dân	100 o ddefnyddwyr	£11,000
Fideogynadledda	100 o ddefnyddwyr	£10,080
Band llydan (PBSA WAN & Rhyngrwyd)	200/100mb	£33,000
<i>Isgyfanswm yn cynnwys TAW</i>		<u>£87,000</u>
Meddalwedd Arall (Costau Sefydlu)		
Adobe Creator	30 o ddefnyddwyr £5,440	£5,440
Pecyn Canfod Firysau	100 o ddefnyddwyr £12,000	£12,000
Apiau Cleient (arall)	100 o ddefnyddwyr £22,000	£22,000
Rhaglen AD	3 defnyddiwr £27,000	£1,500
Rhaglen Cyllid	3 defnyddiwr £10,000	£10,000
Rhaglen Caffael	2 ddefnyddiwr £8,000	£8,000
<i>Isgyfanswm yn cynnwys TAW</i>	<u>£101,000</u>	
Meddalwedd Arall (Costau parhaus)		
<i>Isgyfanswm yn cynnwys TAW</i>		<u>£70,000</u>
Cymorth Microsoft		
<i>Isgyfanswm yn cynnwys TAW</i>		<u>£39,000</u>
<i>Isgyfanswm yn cynnwys TAW</i>		<u>£47,000</u>
Caledwedd (Costau Parhaus)		
Ffôn Symudol	30 o ddefnyddwyr	£6,300
Fideogynadledda (presenoldeb tele)	1 OF	£4,300
Argraffyddion a Pherifferolion	5 OF	£12,000
<i>Isgyfanswm yn cynnwys TAW</i>		<u>£27,000</u>

Tabl 26 - Costau Cyfalaf: TGCh

Crynodeb o'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Costau cyfalaf TGCh	2015-2016 Sefydlu	2015-2016 Gweithredu	Parhaus
COSTAU SEFYDLU			
Trwyddedu a chymorth cwmwl*	247,000		
Caledwedd	204,000		
WAN	213,000		
COSTAU GWEITHREDU			
Darparu gwesteigr a thrwyddedu			178,000
	£ 664,000	£0	£178,000

Dadansoddiad manwl o'r costau hyn (isgyfansymiau'n cynnwys TAW ac wedi'u talgrynnu)

Dadansoddiad o Gostau Cyfalaf: TGCh

		Sefydlu (3 blynedd)	Costau pwynt 3 blynedd
Trwyddedu Cwmwl (Costau Sefydlu)			
Trwyddedu Cleient	100 o ddefnyddwyr	£94,672	£94,672
Gwesteigr Azure	Blynyddol	£54,000	£54,000
Cymorth Microsoft	Blynyddol	£39,000	
Hyfforddiant Microsoft	Sefydlu	£18,000	
	<i>Isgyfanswm yn cynnwys TAW</i>	£247,000	
Darparu Gwesteigr a Thrwyddedu (Costau parhaus)		<i>Isgyfanswm yn cynnwys TAW</i>	£178,000
Caledwedd (Costau Sefydlu)			
Pecyn Cleient (Pendeg)	80 o ddefnyddwyr	£44,355	
Pecyn Cleient (Gliniadur)	20 o ddefnyddwyr	£14,400	
Gweinyddion a Pherifferolion	2 Stac (M)	£38,000	
Ffôn Symudol	30 o ddefnyddwyr	£6,300	
Fideogynadleda (presenoldeb tele)	1 OF	£25,000	
Taflunyddion a Pherifferolion	2 OF	£7,000	
Argraffyddion a Pherifferolion	5 OF	£27,000	
Pecynnau Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol	4 OF	£8,000	
	<i>Isgyfanswm yn cynnwys TAW</i>	£204,000	
WAN / LAN (Costau Sefydlu)			
WAN / Teleffoni / Wwl dân	100 o ddefnyddwyr	£80,000	
Fideogynadleda	100 o ddefnyddwyr	£25,370	
Band llydan (PBSA WAN & Rhyngwyd)	200/100mb	£72,000	
	<i>Isgyfanswm yn cynnwys TAW</i>	£213,000	

Amcangyfrifon yw'r costau hyn gan nad yw'r ymarferion caffael wedi'u cwblhau eto. Nid yw wedi'i gadarnhau eto chwaith a gaiff y costau eu trin fel cyfalaf neu refeniw.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Epost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Cyfeirnod IG-2015-003(W)
Dyddiad 20 Ionawr, 2015
Tudalennau 1 o 2

Annwyl Cadeirydd

Diolch am eich llythyrau dyddiedig 15 Rhagfyr ac adroddiad y Pwyllgor a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd ar ein *Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon, Adroddiad Interim 2014-15 ac Amcangyfrif ar gyfer 2015-16*.

Penodi Baker Tilly yn Archwilwyr Allanol Swyddfa Archwilio Cymru

Yng ngoleuni cymeradwyaeth y Pwyllgor, byddwn yn bwrw ymlaen â phenodi Baker Tilly fel ein Harchwilwyr Allanol. Gallaf gadarnhau y byddwn yn cytuno ar fetrics perfformiad fel rhan o'r contract. Bydd ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn goruchwyllo perfformiad yr archwilwyr, yn enwedig o ran gwaith gwerth am arian a wneir yn y dyfodol.

Byddwn yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn ôl yr angen.

Cynllun Ffioedd 2015

Rydym yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor i gytuno ar y Cynllun a byddwn yn mynd ati i'w gyhoeddi a chytuno ar ffioedd â chyrrff unigol a archwilir yn unol â'r cyfraddau cyhoeddedig. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am gydnabod yr arbedion a'r effeithlonrwydd mewnol y mae'r Bwrdd wedi gofyn amdanynt fel nad effeithir ar y ffioedd.

Er mwyn egluro un ateb a roddais i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r ymgynghoriad ynglŷn â'n graddfeydd ffioedd, ymgynghorwyd â phob corff a archwilir sy'n dod o dan y rheoliadau statudol mewn perthynas â graddfeydd ffioedd Llywodraeth Leol a graddfeydd ffioedd ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol. O dan y ddeddfwriaeth nid yw'n ofynnol i ni ymgynghori y tu hwnt i hynny, ond wrth gwrs bu'r adborth cynhwysfawr drwy ein Harolwg o Randdeiliaid a gynhaliwyd yn gynharach yn ystod y flwyddyn yn fuddiol i ni, fel y crybwyllais wrth y Pwyllgor.

Byddwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer model symlach o adennill costau archwilio cyhoeddus i'r Pwyllgor maes o law.

Amcangyfrif Atodol 2014-15


Rydym yn croesawu'n fawr iawn y ffaith bod y Pwyllgor yn fodlon ar ein Hadroddiad Interim ar gyfer 2014-15 a'n Hamcangyfrif ar gyfer 2015-16. Gallaf gadarnhau bod eich argymhellion yn cael eu hymgorffori yn ein prosesau cynllunio busnes arferol.

Wrth ddod gerbron eich Pwyllgor ar 6 Tachwedd, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am brynu a gweithredu system TG archwilio newydd yn lle'r systemau a etifeddwyd sy'n achosi risgiau i barhad busnes erbyn hyn. Amcangyfrifir mai'r gost gyfalaf, i'w thalu'n llawn yn 2014-15, yw £216,000. Esboniwyd y byddai angen i ni drosglwyddo adnoddau refeniw i adnoddau cyfalaf er mwyn rhoi cyfrif am y buddsoddiad yn briodol.

Nododd y Pwyllgor fod angen cyllideb atodol er mwyn trosglwyddo'r arian yn y modd hwn a chroesawodd y ffaith y gallem dalu am y gwariant ychwanegol drwy ein hadnoddau presennol yn hytrach na gofyn am gynnydd cyllidebol. Mae'n bleser gennyf amgáu Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor gytuno arno a gallaf gadarnhau iddo gael ei drafod â swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn bod yn gyson â llinell amser cyllideb atodol Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar wahân.

Fel bob amser, rydym yn awyddus i roi unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ar eich Pwyllgor.

Yn gywir



Isobel Garner
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Memorandwm Esboniadol

Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid Ynghylch yr Amrywiad yng Nghyllideb Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2015

Cyflwynwyd i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w ystyried o dan Reol Sefydlog 20.35.

Isobel Garner
Cadeirydd, ar ran Swyddfa Archwilio Cymru

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynnwys

Memorandwm Esboniadol

Trosolwg	4
Diben y Memorandwm Esboniadol hwn	5
Cyflwyniad	5
Addasiadau i adnoddau referiw a chyfalaf	6
Gofyniad arian parod net	6
Crynodeb	6

Atodiadau

Crynodeb o ofynion cyllidebol 2014-15 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllidebol Atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru	7
--	---

Trosolwg

- 1 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno amcangyfrif blynyddol o'i hincwm a'i gwariant i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol archwilio'r amcangyfrif hwnnw a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y pwyllgor.
- 2 Cafodd Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2014-15 ei gynnwys yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 a'i gymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Rhagfyr 2013, ar ôl gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid.
- 3 Ymhellach at y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid ar 6 Tachwedd 2014, mae Swyddfa Archwilio Cymru bellach yn ceisio diwygio'r Amcangyfrif cymeradwy ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2015.

Diben y Memorandwm Esboniadol hwn

Cyflwyniad

- 4 O dan y cynnig cyllidebol awdurdodwyd Swyddfa Archwilio Cymru i gadw £17.639 miliwn o adnoddau cronrus, a gynhyrchwyd drwy ffioedd a godwyd ar gyrff archwilio, a darparu £5.974 miliwn o adnoddau eraill. Gyda'i gilydd, defnyddir y swm hwn o £23.613 miliwn i ariannu costau Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni ei dyletswyddau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.
- 5 Esboniodd Ein Hamcangyfrif ar gyfer 2014-15 fod amrywiaeth o systemau TG a etifeddwyd yn cael eu defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i gynllunio, rheoli, cofnodi a storio gwaith archwilio yn ein dwy adran ymarfer archwilio (archwilio ariannol ac archwilio perfformiad). Etifeddwyd y systemau hyn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar adeg ei sefydlu. Hysbyswyd y Pwyllgor Cyllid bod prosiect wedi'i ddechrau i nodi a oedd llwyfan archwilio cyffredin a allai ymgymryd â'r gwahanol swyddogaethau hyn a helpu i wella'r ffordd y caiff gwaith archwilio ei gynnal. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y ffaith y gallai fod angen arian cyfalaf ychwanegol drwy Gyllideb Atodol, pe bai'r prosiect yn nodi ateb dichonadwy.
- 6 Wrth brofi'r farchnad, canfuwyd na allem gyflawni ein dyhead yn y byrdymor heb adnoddau sylweddol na meddalwedd arloesol nad oedd wedi cael ei phrofi yn y sector archwilio allanol. Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod y risgiau a oedd yn gysylltiedig â gweithredu yn rhy uchel, ond hefyd fod risgiau i barhad busnes yn rhy sylweddol i gyfiawnhau parhau i 'wneud dim'. Nododd llythyr gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar 29 Hydref 2014, benderfyniad y Bwrdd i gaffael system rheoli archwilio newydd ar gyfer ein hymarfer archwilio ariannol. Bydd y system hefyd yn rhesymoli ac yn symleiddio systemau ategol, gan y bydd yn disodli ein systemau presennol ar gyfer cofnodi amser a rheoli adnoddau. Y gost gyfalaf yw £216,000, ynghyd â chostau refeniw cychwynnol o £46,000 yn 2014-15. Bydd yn arwain at gostau rhedeg systemau is a gwell effeithlonrwydd i'r gweithlu, gan ryddhau adnoddau ar ôl iddi gael ei gweithredu (yn weithredol o 2016-17). Mae'r Bwrdd yn dal yn awyddus i sicrhau llwyfan archwilio cyffredin ar gyfer y ddwy adran ymarfer, y rhagwelwn y gellir ei gyflawni yn y tymor canolig, yn enwedig wrth i ni barhau i weithio'n agos gyda chyrrff archwilio allanol eraill y DU.
- 7 Fel yr esboniwyd i'r Pwyllgor Cyllid ar 6 Tachwedd, drwy reoli ein hadnoddau'n ofalus, gellir talu am y costau ychwanegol hyn yn fewnol, heb fod angen gofyn am arian ychwanegol. Felly defnyddir dull y Gyllideb Atodol i wneud addasiad technegol i Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn symud arian refeniw i arian cyfalaf. Nododd y Pwyllgor fod angen cyllideb atodol er mwyn trosglwyddo'r arian yn y modd hwn a chroesawodd y ffaith y gallem dalu am y gwariant ychwanegol drwy ein hadnoddau presennol yn hytrach na gofyn am gynnydd cyllidebol. Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn nodi'r addasiadau technegol sydd eu hangen.

Addasiadau i gyllidebau refeniw a cyfalaf

- 8 Fel yr esboniwyd uchod, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi arbedion ac effeithlonrwydd yn ei chyllideb refeniw ar gyfer 2014-15 a fydd yn ei galluogi i ariannu'r gost o brynu system rheoli archwilio newydd a'r costau gweithredu cychwynnol. Nodir y newidiadau cyllidebol technegol sydd eu hangen yn [Nhabl 1](#).

Tabl 1

	Amcangyfrif Cymeradwy 2014-15	Amcangyfrif Atodol 2014-15	Amcangyfrif Diwygiedig 2014-15
	£'000	£'000	£'000
Adnoddau refeniw	5,876	(200)	5,676
Adnoddau cyfalaf	98	200	298
Adnoddau cronuss	17,639	–	17,639
Cyfanswm gwariant	23,613	–	23,613

Gofyniad arian parod net

- 9 Nid oes angen newid y gofyniad arian parod net cymeradwy sef £5.974 miliwn.

Crynodeb

- 10 Rhydd [Tabl 2](#) grynodeb o'r adnoddau cyfalaf a refeniw diwygiedig a'r gofyniad arian parod net os cymeradwyeir yr amcangyfrif atodol hwn.

Tabl 2 – Crynodeb o'r adnoddau refeniw a'r ceisiadau am arian parod

	Cais am adnoddau	Gofyniad arian parod net
	£'000	£'000
Adnoddau refeniw	5,676	5,676
Adnoddau cyfalaf	298	298
Cyfanswm	5,974	5,974

Atodiad 1

Crynodeb o ofynion cyllidebol 2014-15 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllidebol Atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru

O dan Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006'), mae'n rhaid i Weinidogion gynnig Cynnig Cyllidebol Atodol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a hawlio arian parod o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer personau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

Mewn perthynas â gwasanaethau a dibenion y Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2015, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi'r canlynol:

- cyfanswm yr adnoddau i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- cyfanswm yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru y gellir eu cadw (yn hytrach na'u talu i mewn i'r Gronfa Gyfunol);
- y swm y gellir ei dalu o'r Gronfa Gyfunol i Swyddfa Archwilio Cymru.

Ceir crynodeb o'r gofynion hyn, na ellir ond darparu amcangyfrifon ar eu cyfer oherwydd amrywioldeb ffrydiau incwm, yn **Nhabl 1** isod.

Tabl 1 – Crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2014-15

	£'000
Adnoddau ac eithrio adnoddau sy'n cronni i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilywyr penodedig llywodraeth leol, ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru:	
• Refeniw	5,676
• Cyfalaf	298
Adnoddau sy'n cronni o ffioedd a thaliadau ar gyfer gwasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig (ac eithrio ar gyfer gwaith archwilio, asesu ac arol-ygu llywodraeth leol); costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol a phroffesiynol a thechnegol; costau a adenillir oherwydd staff wedi'u secondio; benthyciadau staff a ad-delir; taliadau prydlesu ceir a adenillir; a llog a geir ar falansau gwaith at ddefnydd Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.	17,639
Gofyniad arian parod net o'r Gronfa Gyfunol i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru.	5,974

Mae **Tabl 2** yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i gofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2015.

Tabl 2 – Cysoni'r gofyniad adnoddau â'r gofyniad hawlio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

	£'000
Cais net am adnoddau – referniw a chyfalaf	5,974
Addasiadau cyfalaf gwaith net	–
Gofyniad arian parod net	5,974

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk

Angela Burns AC/AM

**Comisiynydd y Cynulliad
Assembly Commissioner**

**Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales**

29 January 2015

Dear Jocelyn,

I am writing to bring to the attention of Committee that the Commission will be submitting a Supplementary Budget for 2014-15. The Commission is proposing adjustments to increase the:

- Annually Managed Expenditure (AME) budget from £0.75million to £1.2million.
- amount of income the Commission is permitted to accrue from £0.25million to £0.4million.

These changes reflect anticipated changes in requirement as identified by the in-year budget monitoring process.

The AME Budget

The AME budget is an accounting adjustment relating to the future financial liability of the Members' Pension Scheme. There is no associated cash requirement and making changes to it has no impact on the Commission Resource budget or service delivery.

The final value cannot be calculated until after 31 March, but estimates are requested from professional advisors during the year. The most recent estimate indicates that the liability for the current year is likely to be in excess of £1million, which is higher than the current budget. In order to provide an element of contingency, we are seeking to increase the budget to £1.2 million.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn • Tel: 029 2089 8598

Ffacs • Fax: 029 2089 8117

Ebost • Email: Sulafa.Thomas@wales.gov.uk

Ysgrifenyddiaeth Comisiwn y Cynulliad/Assembly Commission Secretariat

Tudalen y pecyn 103



Income

The budget ambit states the maximum level of income that the Commission can accrue during the financial year to be used for service delivery. This was set at £0.25million for 2014-15. However, this year has seen an increase in the number of staff taking external secondment opportunities for which we receive payment. There has also been an increase in income from car park charges. We would therefore like to increase the limit to £0.400million.

The overall effect of these changes will be:

- Resource budget remains at £50.598million
- AME budget increases from £0.750million to £1.2million

In accordance with Standing Order 20.32, the Commission will be laying an explanatory memorandum with this request. A copy is attached. If you need any further information please let me know.

Yours sincerely

Angela Burns
Comisiynydd y Cynulliad
Assembly Commissioner

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cyllideb Atodol 2014-15
Memorandwm Esboniadol

Chwefror 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygrych, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

Cyfathrebu'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ar-lein: www.cynulliad.cymru
E-bost: Cysylltu@cynulliad.cymru
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cyllideb Atodol 2014-15
Memorandwm Esboniadol

Chwefror 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynnwys

01.Cefndir	2
Memorandwm Esboniadol	2
Cyllideb Adnoddau	2
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	3
Effaith y Gyllideb.....	3
02.Cwmpas y Gyllideb.....	4

01.Cefndir

Cafodd Cyllideb y Comisiwn **ar gyfer 2014-15** ei chynnwys yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Tachwedd 2013, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad.

Roedd y cynnig cyllideb yn darparu £50.600 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn gan ddarparu:

- £36.500 miliwn i wasanaethau'r Cynulliad; a
- £14.100 miliwn ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Darparwyd £0.750 miliwn ychwanegol ar gyfer addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, a hynny drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Gosodir y Memorandwm Esboniadol hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.32, gan gefnogi newidiadau i'w cynnig i gyllideb gymeradwy y Comisiwn, drwy Gynnig ar y Gyllideb Atodol.

Memorandwm Esboniadol

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd cynyddu cyfanswm yr Incwm y caniateir i'r Comisiwn ei gronni, a chynyddu'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn unol â'r rhagamcanion.

Cyllideb Adnoddau

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu cynnydd yn lefelau'r incwm a gafodd y Comisiwn heb wneud unrhyw newid i'r terfyn o fewn cwmpas y Gyllideb. Canlyniad hyn yw bod y Comisiwn mewn perygl o fethu ag ail-fuddsoddi'r incwm ar gyfer darparu ei wasanaethau ac yn hytrach yn gorfod dychwelyd y swm sydd dros ben i Gronfa Gyfunol Cymru.

Y prif resymau am y cynnydd yw:

- mwy o gymorth ar gyfer datblygiad staff trwy gyfleoedd i fynd ar secondiadau allanol sy'n cynhyrchu incwm mewn perthynas â chostau cyflogau;
- cynnydd o ran defnyddio'r maes parcio ac felly cynnydd yn yr incwm o ffoedd parcio;
- gwerthu offer sydd wedi mynd y tu hwnt i'w oes ddefnyddiol o ran gofynion y Comisiwn ond sy'n dal i fod â gwerth yn y farchnad ehangach.

Mae angen i'r Comisiwn fanteisio i'r eithaf ar ddefnyddio incwm i gefnogi buddsoddiad mewn gwasanaethau a rheoli incwm a gwariant yn briodol fel adnodd.

Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Mae cyllideb gwariant a reolir yn flynyddol y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Pwrpas yr addasiad hwn yw sicrhau bod darlun cywir a theg o atebolrwydd y Cynllun yn cael ei gofnodi ar fantolen y Comisiwn; nid yw'n adlewyrchu'r symiau ariannol a dalwyd gan y Comisiwn i'r Cynllun. Nid oes unrhyw ofyniad cysylltiedig o ran arian parod ac ni fydd gwneud newidiadau iddo yn effeithio ar gyllideb adnoddau'r Comisiwn na'r gwasanaethau a ddarperir.

Ni fydd modd cyfrifo'r gwerth terfynol tan wedi 31 Mawrth, ond gofynnir am amcangyfrifon gan gynghorwyr proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Yn seiliedig ar gyfrifiadau sy'n adlewyrchu newidiadau hysbys i'r gyfradd ddisgownt a newidynnau eraill sy'n effeithio ar atebolrwydd amcangyfrifedig y cynllun, mae'r amcangyfrif diweddaraf ychydig o dan £1.0 miliwn.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol, o ran gwariant a reolir yn flynyddol, o £1.200 miliwn er mwyn sicrhau bod digon o arian wrth gefn i reoli unrhyw amrywiad o'r amcangyfrif yn y ffigurau terfynol ar ddiwedd y flwyddyn.

Effaith y Gyllideb

Bydd y Cynnig Cyllideb Atodol yn cynnig cynnydd i'r:

- terfyn ar gronni adnoddau o £0.150 miliwn i £0.400 miliwn
- Cyllideb gwariant a reolir yn flynyddol o £0.450 i £1.200 miliwn

02.Cwmpas y Gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 i helpu i lunio Cynnig Cyllideb sy'n ofynnol yn ôl Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau a gofynion gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2015.

Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronrus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net a ragwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod talu amdanynt.

Nodir y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer Comisiwn y Cynulliad yn 2014-15, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn, isod yn Nhabl 1.

Tabl 1

	£000oedd diwygiedig
Arian ar wahân i arian cronrus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau refeniw a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.	36,500
Arian ar wahân i arian cronrus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau.	<u>14,100</u>
<i>Cyfanswm yr arian, ar wahân i arian cronrus</i>	<i>50,600</i>
Gwariant a Reolir yn Flynyddol i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â darparu Pensiwn Aelodau'r Cynulliad	1,200
Arian cronrus i'w gadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru:	
Arian cronrus i'w gadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru:	
o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu	400
incwm rhent; anrhegion; cymorth grant; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Cynulliad.	
Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei adennill.	46,448

Mae Tabl 2 isod yn cysoni'r gofyniad adnoddau net â'r gofyniad tynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

Tabl 2 – Gofyniad ariannol

**£000oedd
2014-15
diwygiedig**

Gofyniad Refeniw Net yr Aelodau	14,100
Gofyniad Refeniw Net y Comisiwn	36,000
Gofyniad cyfalaf net	500
Darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad	1,200
<i>Addasiadau:</i>	
Dibrisiant	(4,000)
Newidiadau yn y ddarpariaeth	(1,200)
Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr	(252)
Defnydd o ddarpariaethau	100
Gofyniad ariannol net i'w gymryd o Gronfa Gyfunol Cymru	46,448

Y Pwyllgor Cyllid
Finance Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

Angela Burns AC
Comisiynydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru



5 Chwefror 2015

Annwyl Angela

Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad 2014-15

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Ionawr mewn cysylltiad â Chyllideb Atodol y Comisiwn. Ar hyn o bryd, nid wyf yn credu bod angen i chi ddod i'r Pwyllgor er mwyn craffu ar y gyllideb atodol. Fodd bynnag, er mwyn helpu'r Pwyllgor i graffu ar y gyllideb atodol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhagor o fanylion am y meysydd canlynol.

Cyllideb Adnodd

Hoffai'r Pwyllgor gael dadansoddiad o sut y disgwylir i godi'r incwm ychwanegol. Fel y gwyddoch, cafwyd trafodaeth yn y Pwyllgor ynghylch y penderfyniad i ddechrau codi arian am y maes parcio yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb yn 2011.

A fyddech cystal â darparu'r canlynol:

- y wybodaeth ddiweddaraf am refeniw a chostau y cynllun maes parcio ar gyfer 2014-15 a sut mae hyn yn cymharu â'r amcangyfrifon yn y gyllideb yr hydref diwethaf; a
- sut mae hyn wedi newid ers dechrau'r cynllun?

Er nad oes newid yn y gofyniad o ran arian parod cyffredinol o Gronfa Gyfunol Cymru, mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn ymddangos bod yr arian wedi newid o gyfalaf i refeniw. A allech chi gadarnhau y bu trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y bwriad hwn gan nad oes manylion am hyn yn y nodyn esboniadol.

Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

Mewn cysylltiad â'r newid mewn pensiwn, hoffem gael rhagor o fanylion am y newid hwn ar 31 Mawrth pan fydd y gwerthoedd terfynol wedi'u cyfrifo.

Er mwyn i'r Pwyllgor ystyried Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad yn ein cyfarfod ar 25 Chwefror, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Mercher 18 Chwefror (heblaw am y mater ynghylch pensiwn).

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Jocelyn Davies". The signature is written in a cursive, flowing style.

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd



Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

18 Chwefror 2015

Annwyl Jocelyn

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Chwefror 2015, ynglŷn â Chyllideb Atodol y Comisiwn 2014-15.

Gofynnwyd am ddadansoddiad o'r incwm ychwanegol y disgwylir iddo gael ei godi. Mae hwn wedi'i nodi yn Nhabl 1.

Tabl 1

Ffrwd Incwm	Disgrifiad	Amcangyfrif Cyllideb Gwreiddiol ar gyfer 2014-15 £000	Amcangyfrif diwygiedig ar gyfer 2014-15 £000
Secondiadau	Incwm a gafwyd mewn perthynas â chyflogeion yn ymgymryd â secondiadau mewn sefydliadau eraill	£0	£173
Rhent	A godir ar gyrff sy'n meddiannu gofod ar Ystad y Comisiwn	£90	£76
Siop y Cynulliad	Incwm a gynhrychir o werthu nwyddau yn siop y Senedd ac incwm amrywiol arall, fel gwerthu offer.	£15	£32
Parcio	Incwm a gynhrychir o daliadau staff ar gyfer defnydd o'r cyfleusterau parcio.	£100	£91
Arall	Wrth gefn ar gyfer incwm arall	£45	£28
Cyfanswm		£250	£400

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6230

E-bost/Email: Claire.Clancy@assembly.wales

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Mae'r cynnydd o £150,000, i £400,000, yn angenrheidiol er mwyn rheoli sefyllfa 2014-15, a darparu swm bychan wrth gefn ar gyfer unrhyw amrywiad ar i fyny i'r rhagolwg.

Dadansoddiad o ran Parcio

O ran eich ymholiad penodol am barcio ceir, dangosir yr incwm a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol o'i gymharu â blynyddoedd ariannol blaenorol yn Nhabl 2.

Tabl 2

Blwyddyn	Gwariant	Incwm	Cost Net	% o'r gost a gaiff ei adfer drwy daliadau
2011-12	98,556	84,405	14,151	85.64%
2012-13	115,109	85,976	29,133	74.69%
2013-14	103,404	88,968	14,437	86.04%
2014-15 (yr hyn a ragwelwyd yn Ionawr 2015)	98,334	91,300	7,034	92.84%

Nododd y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2014-15 bod disgwyl i'r costau parcio fod yn £120,000. Fodd bynnag, o ganlyniad i reolaeth ofalus o'r cyfleusterau parcio, mae'r costau wedi gostwng o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Hefyd, mae newid i'r dosbarthiad o gostau'r maes parcio wedi golygu bod y Comisiwn yn awr yn gallu adennill TAW ar gostau a dalwn i'r cwmni parcio allanol, sydd wedi lleihau costau ymhellach.


Refeniw a Symud Cyfalaf

Fel rhan o'n gwaith rheolaidd, byddwn yn cysylltu â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod tryloywder ac eglurder ynghylch unrhyw newidiadau y mae'r Comisiwn yn eu cynnig o ran y gyllideb. Gan fod ein cyllideb yn gyfran mor fach o gyfanswm y gyllideb a reolir gan Lywodraeth Cymru, anaml y bydd ein newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar Lywodraeth Cymru. Rydym yn darparu gwybodaeth reolaidd o flaen llaw i helpu gyda phroses gynllunio y Llywodraeth, ac i liniaru'r risg o unrhyw effaith annisgwyl o ran y gyllideb. Gallaf gadarnhau felly y bu trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru am gynigion Cyllideb Atodol y Comisiwn.

Nodaf eich cais am wybodaeth am y pensiwn, a byddaf yn sicrhau y caiff hon ei hanfon atoch cyn gynted ag y bo modd ar ôl 31 Mawrth 2015.

Gobeithio bod yr eglurhad hwn yn ddigonol i ateb eich ymholiadau. Peidiwch ag oedi cyn gofyn os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn ddiffuant

A handwritten signature in black ink that reads "Claire Clancy". The signature is written in a cursive style with a large initial 'C'.

Claire Clancy

Prif Weithredwr a Chlerc/Chief Executive and Clerk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru/National Assembly for Wales

Cynnig y Gyllideb Atodol 2014-15

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y
Llywodraeth*

Chwefror 2015

Cynnig y Gyllideb Atodol**Gofynnir i'r Cynulliad gytuno ar y canlynol**

“1. Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2015 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) yn unol ag Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Llywodraeth Cymru

2. Awdurdodir Llywodraeth Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2015 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen honno;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronuss a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2015, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

3. Er gwaethaf paragraffau 2(a) a (b), caiff yr adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, yng Ngholofn 2 o bob Rhan o Atodlen 2), fod yn uwch na'r swm a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, ym mhob rhan o Atodlen 2)-

(a) os bodlonir yr amod cyntaf, yn achos adnoddau heb gynnwys adnoddau cronuss, neu

(b) os bodlonir yr ail amod, yn achos adnoddau cronuss.

4. Yr amod cyntaf yw nad yw cyfanswm yr adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2015 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno.

5. Yr ail amod yw nad yw cyfanswm yr adnoddau cronuss a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2015 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 2 o Atodlen 2 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir ar gyfer pob rhan o'r Atodlen honno.

Comisiwn y Cynulliad

6. Awdurdodir Comisiwn y Cynulliad -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronrus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2015 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 1 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronrus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2015, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

7. Awdurdodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronrus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2015 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 2 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronrus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2015, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 2 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 2 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Archwilydd Cyffredinol Cymru

8. Awdurdodir Archwilydd Cyffredinol Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronrus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2015 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 3 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronrus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2015, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn

y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 3 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Manyleb y Categoriâu o Adnoddau Cronnus

9. Mae'r categorïau o adnoddau cronnus a restrir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, ac yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 4, yn gategoriâu penodedig at ddibenion Adran 120(2)(a) o'r Ddeddf."

Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf***Gweinidogion Cymru***

Cwmpas	Adnoddau (£000)	Adnoddau Cronnus (£000)
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	5,657,480	1,016,908
Llywodraeth Leol	3,616,564	351
Cymunedau a Threchu Tlodi	636,948	72,770
Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	1,182,168	70,886
Addysg a Sgiliau	2,040,988	137,023
Cyfoeth Naturiol	419,855	356,187
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	366,163	610,550
Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru	13,920,166	2,264,675

Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

Cwmpas	Adnoddau (£000)	Adnoddau Cronnus (£000)
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	51,800	400
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,023	6
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,974	17,639
Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol	61,797	18,045

Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Cyllid adnoddau a chyfalaf i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig; Cyfalaf Difidend Cyhoeddus i Ymddiriedolaethau'r GIG; benthyciadau i Ymddiriedolaethau'r GIG; taliadau am wasanaethau o dan gontract gan gynnwys gwasanaethau deintyddol, offthalmig a fferyllol; gwasanaethau meddygol cyffredinol; cymorth ar gyfer addysg a hyfforddiant; ymchwil a datblygu; gwasanaethau iechyd meddwl; triniaeth ar gyfer clefydau cronig; a mesurau i fynd i'r afael ag Anghydraddoldebau Iechyd; cyllid ar gyfer Cronfa Risg Cymru; cyllid i gefnogi plant a'u teuluoedd, gan gynnwys sefydliadau plant a theuluoedd ac eiriolaeth; Grantiau i gyflenwi'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a chymorth i'r Asiantaeth Safonau Bwyd; cymorth i wasanaethau ar gyfer pobl hŷn ac i wasanaethau cymdeithasol a gofalwyr; gwella gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys ariannu Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE); i Gyngor Gofal Cymru; y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE); y Comisiynydd Pobl Hŷn; a chyfraniadau i gyrff iechyd a gofal cymdeithasol y DU.</p> <p>Cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru; cyllid ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a'r Adran Iechyd neu ar eu rhan; gwasanaethau ar gyfer gwella iechyd ac ar gyfer atal salwch, gwneud diagnosis ohono a'i drin; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod.</p>	<p>5,657,480</p>

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Llywodraeth Leol</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ym meysydd llywodraeth leol a chyflenwi gwasanaeth cyhoeddus a hyrwyddo diogelwch cymunedol. Arian wedi'i neilltuo a heb ei neilltuo ar gyfer awdurdodau unedol llywodraeth leol; comisiynwyr yr heddlu a throseddau ac awdurdodau'r gwasanaeth tân ac achub, drwy gyllid grant heb ei neilltuo drwy gyfrwng grant cynnal refeniw, ardrethi annomestig cenedlaethol (NNDR) wedi'u hailddosbarthu a chyllid cyfalaf cyffredinol neu ddull ar wahân o ddarparu adnoddau a chyllid grant cyfalaf at ddiben polisi penodedig sy'n berthnasol i'r meysydd uchod o weithgarwch. Cyllido a noddi cyrff cyhoeddus a sefydliadau anstatudol sydd â swyddogaethau'n ymwneud ag archwilio, rheoleiddio ac arolygu; hyrwyddo a chynrychioli democratiaeth; datblygu perfformiad a rheoli newid; hybu a chynnal safonau ac atebolrwydd (gan gynnwys swyddogaethau llys apêl); darparu canlyniadau; a gwella perfformiad mewn perthynas â llywodraeth leol. Cyllid ar gyfer costau rhaglen, costau staffio a chostau gweinyddol cyffredinol (gan gynnwys costau prydlesu) yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, noddi Estyn gan gynnwys costau staff a gwariant gweinyddol cyffredinol a dibrisiant ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. Ariannu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol mewn perthynas â diogelwch a datblygu cymunedol; gwaith i gefnogi'r lluoedd arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd; gwrthsefyll camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol; atal pobl ifanc rhag troseddau, a gwariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. Arian cyfatebol o dan Flaenoriaeth 4 o Gronfa Gymdeithasol Ewrop; cymorth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio.</p>	<p>3,616,564</p>

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronuss)	
Colofn 1	Colofn 2
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Cymunedau a Threchu Tlodi</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ym maes Cefnogi Cymunedau a Phobl gan gynnwys adfywio a datblygu cymunedau, ariannu cyrff y Trydydd Sector; mentrau Trechu Tlodi; cefnogi Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf; datblygu cymunedol; datblygu cyrff gwirfoddol a gwirfoddoli; cynhwysiant ariannol, gan gynnwys undebau credyd; cynhwysiant digidol; swyddfeydd post; gwiriadau'r Biwro Cofnodion Troseddol; ac ariannu a gweinyddu prosiectau diwygio lles.</p> <p>Arian ar gyfer cymorth i blant a'u teuluoedd, gan gynnwys arian ar gyfer Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Comisiynydd Plant Cymru, strategaethau tlodi plant, gofal plant, chwarae, hawliau plant a phobl ifanc, cyfranogi, cyrff plant a theuluoedd, cymorth i awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector preifat at ddibenion gofal plant a chymorth i ofal plant y tu allan i'r ysgol a gofal cofleidiol.</p> <p>Arian ar gyfer cefnogi a hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag ariannu rhaglenni ar gyfer cydraddoldeb a chyfle cyfartal; ar gyfer gwella cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod.</p> <p>Arian ar gyfer Tai ac Adfywio, gan gynnwys hybu neu wella diwylliant a lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol, rhoi cyllid, cyngor a chymorth gweinyddol i awdurdodau lleol, asiantaethau a chyrff eraill er mwyn hybu, hwyluso a darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau mewn perthynas â Thai ac Adfywio; gwella cyflenwad ac ansawdd y tai sydd ar gael ledled Cymru, gan gynnwys safon tai'r awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a gwella'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai; caffael, lesio, datblygu a chynnal a chadw tir ac adeiladau; trosglwyddo stoc tai; cymorth ar gyfer modelau cymunedol cydfuddiannol ac er mwyn meithrin gallu; tai cymdeithasol; cymorth ar gyfer gwaith adfywio ffisegol gan gynnwys ardaloedd adnewyddu tai a thrwyddedu tai amlfeddiannaeth; cefnogi pobl; atal a mynd i'r afael â digartrefedd; darparu arian ar gyfer gwaith addasu a chyfleusterau er mwyn i bobl fedru aros yn eu cartrefi eu hunain; rheoleiddio ac arolygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; polisi adfywio a gweinyddu polisiâu ac arian gan gynnwys hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i fusnesau, unigolion,</p>	<p>636,948</p>

<p>cymunedau a lleoedd yng Nghymru; trosi a gweithredu deddfwriaeth a rhwymedigaethau'r DU a deddfwriaeth a rhwymedigaethau Ewropeaidd a rhyngwladol; gweinyddu a chyflawni prosiectau a ariennir gan gronfeydd strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd; cynnal ymchwiliadau, ymchwil a gwerthuso; hybu a chyhoeddusrwydd a gwasanaethau; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod.</p>	
--	--

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronuss)	
Colofn 1	Colofn 2
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gan gynnwys hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ar gyfer busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru.</p> <p>Ar gyfer darparu arian adnoddau a chyfalaf i helpu sefydlu, twf, datblygiad a chynaliadwyedd busnes a thwristiaeth yng Nghymru.</p> <p>Gwariant yn ymwneud â chefnogi diwylliant, chwaraeon, y cyfryngau, cyhoeddi, a'r amgylchedd hanesyddol a naturiol gan gynnwys arian i Amgueddfa Cymru; Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Cyngor Celfyddydau Cymru; Grdd Fotaneg Genedlaethol Cymru; Chwaraeon Cymru a sefydliadau eraill sy'n hybu chwaraeon a ffyrdd egnïol o fyw ledled Cymru; Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a sefydliadau eraill sy'n ceisio hybu ac ehangu mynediad i drysorau diwylliannol, adeiladau a lleoedd sydd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol yng Nghymru; a'u gwarchod, eu diogelu, eu cynnal a'u cyflwyno, ac unrhyw wariant cysylltiedig arall a defnydd heb fod yn arian parod.</p> <p>Cyllid adnoddau a chyfalaf ar gyfer trafndiaeth a seilwaith ffyrdd, gan gynnwys adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a gwella cefnffyrdd yng Nghymru; darparu gwasanaethau teithio ar y rheilffyrdd a theithio awyr; diogelwch ar y ffyrdd; rheoleiddio croesfannau i gerddwyr a pharcio ar y stryd; ariannu a gweinyddu rhaglenni i awdurdodau lleol a chyrrff eraill er mwyn darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau trafndiaeth gan gynnwys tocynnau teithio rhatach; cymorth i hyrwyddo a datblygu cerdded a beicio; ac unrhyw wariant cysylltiedig arall, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod sy'n rhoi budd economaidd ehangach i Gymru.</p> <p>Ad-daliadau cyfalaf i'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.</p>	<p>1,182,168</p>

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Addysg a Sgiliau</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Addysg a Sgiliau er mwyn ariannu: gwella llythrennedd a rhifedd; ymestyn hawliau a llwybrau dysgu 14-19; y Cyfnod Sylfaen; gwelliannau i'r cwricwlwm; cefnogaeth i Techniquet; hyfforddi, datblygu a chefnogi athrawon; datblygu a rheoleiddio cymwysterau; arian cyfalaf ac adnoddau i Gymwysterau Cymru, darpariaeth adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 gan gynnwys addysg bellach, prentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith; arian cyfalaf ac adnoddau ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; cefnogi addysg feddygol i israddedigion; gwella perfformiad ysgolion; ariannu arolygiadau; cymorth i godi safonau a gwella effeithiolrwydd ysgolion; y grant amddifadedd disgyblion; arian cyfalaf ac adnoddau ar gyfer datblygu TG ym maes dysgu; cyfalaf i gefnogi'r seilwaith ysgolion a'r seilwaith ôl-16; datblygu sgiliau a dysgu yn y gweithle; gwasanaethau cyngor ar yrfaedd; cefnogi'r Gwasanaeth Ieuentid; cymorth i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant; cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol, darparu llaeth mewn ysgolion; cyllid i ddysgwyr a myfyrwyr gan gynnwys costau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a'r Lwfansau Cynhaliaeth Addysg; trechu dadrithiad; dysgu dwyieithog; cymorth i Gomisiynydd y Gymraeg, a grantiau a phrosiectau sy'n hybu'r Gymraeg; cymorth i fentrau addysg ryngwladol; ymchwil addysgol a gwerthuso addysg; hybu addysg a sgiliau; eitemau cysylltiedig heb fod yn arian parod ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod.</p>	<p>2,040,988</p>

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronuss)	
Colofn 1	Colofn 2
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
